Cylchlythyr Cymunedol Dolwyddelan

Hydref 2026

Cymdeithas y Gerddi, Dolwyddelan

8 2ain

Y Sioe Flynyddol

05-09-26 @ 2 pm

Rhaglen ar werth yn Gwydyr neu'r Siop

Dewch i gefnogi



MENTER SIABOD

Unrhyw ymholiadau cysylltwch a –

Bob Valintine 01690 750 205

Kirsty Jones 07703 834 322

mentersiabod@googlemail.com

Pafiliwn Cymunedol Dolwyddelan, Tu ôl i'r Ysgol Dolwyddelan, Conwy LL25 0SZ


Sinema'r Pentref

Ystafell Gwyddelan – 7.00yp Atyniadau sydd ar y gweill

Medi 16



Hydref 21



Tachwedd 18



Ar gael i'w llogi fesul diwrnod gan Fenter Siabod yn y Pafiliwn . . .

Cadair Olwyn - rhodd
Pebyll - £50 y dydd (ynghyd â blaendal o £50)
Byrddau Plyg – am ddim i drigolion lleol
Teclyn siampŵio Carpedi - £10 y dydd
Glanhawr Mannau Penodol (yn ddefnyddiol ar gyfer y grisiau) £5 dydd

Taliadau Llogi'r Pafiliwn ac Ystafell Gwyddelan

Sefydliad	Bore (hyd at 4 awr)	Prynhawn (hyd at 4 awr)	Gyda'r nos (hyd at 4 awr)	Diwrnod Llawn
Cyfarfodydd cyson (wythnosol/misol) Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£10	£10	£10	£25
Un-tro neu achlysurol Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£15	£15	£15	£35
Busnes	£25	£25	£25	£60
Mae'r defnydd o gyfarpar Clywedol/Gweledol yn gost ychwanegol o £5 y sesiwn				
Bydd sefydliadau Lleol/Elusennol/Gwirfoddol (digwyddiadau rheolaidd) gyda llai na 10 yn bresennol yn talu £1 y pen y sesiwn hyd at 4 awr.				

Unrhyw ymholiadau cysylltwch a . . .

Bob Valintine 01690 750 205
Kirsty Jones 07703 834 322

TREIALON CWN DEFAID DOLWYDDELAN

Lleol Nos Wener, 25ain o Fedi am 4.30
Dydd Sadwrn o 9 y bore ymlaen

Lluniaeth ar gael
Cae tu ôl i'r Pafiliwn



'Dolwyddelan yn ei Blodau

Hoffem ni ddiolch i holl aelodau a chyfeillion Dolwyddelan yn ei Blodau am eu gwaith caled yn ystod y gwanwyn a'r haf hwn.
Chwynnu, plannu, dyfrio, casglu sbwriel, ail-baentio dalwyr planhigion a meinciau. Os oes blodau mewn llefydd cyhoeddus yn Nolwyddelan, mae'n debyg bod y diolch amdanynt i bwyllgor Dolwyddelan yn ei Blodau.
Bu i'r tîm hefyd gynnal dau ddigwyddiad codi arian llwyddiannus, noson Vinted, gyda'r elw yn mynd tuag at y Carnifal, a stondin yn y farchnad wnaeth godi £194 tuag at ddalwyr planhigion a phlaciau er cof am Eurwyn. Bu inni hefyd dderbyn dwy rodd hael o £20 yr un (wedi'i gynnwys yn y cyfanswm).

I bawb sy'n ein cefnogi ni, DIOLCH YN FAWR

Hoffai Bwyllgor y Carnifal ddiolch i . . .



ALFA, D&C Jones, Betws Motors ac I.L.D Engineering am noddi'r Carnifal, yn ogystal â'r Cyngor Cymuned a Dolwyddelan yn ei Blodau, Menter Siabod, Griffiths Snooker a'r W.I am eu cyfraniadau ariannol. Diolch hefyd i Brodwaith, Myfanwy am gynnal y noson Vinted a Shaun am werthu'r calendrau ac i bawb arall am eu cyfraniadau a'u gwobrau caredig.

WYAU CYMREIG O'R BUARTH

Wyau ffres o'n fferm ni ym Mhont y Pant, wedi'w danfon i'ch cartref

WYAU MUR GOCH





£2 am ½ dwsin, wedi'w danfon

Ffoniwch, neu gyrrwch neges i Emma ar:

07534898468



GRŴP CREFFT DYDD LLUN



Bob dydd Llun 10.00 tan 1.00

Mewn cyfarfod diweddar, bu inni roi cynnig ar . . .

Emma – gwehyddu helyg • Ann – croesbwytho • Teleri – gwau • Cain – arlunio • Vanda – cwiltio • Jon – paentio defaid ar gyfer cynllun trên • Ali – addasu siaced • Debbie – gwaith gleiniau • Shaun – cardio gwlân • Jane – gwehyddu

Os hoffech chi fwynhau eich crefft *chi* gyda phobl o'r un meddylfryd, bydd croeso mawr ichi.
Bydd paned ar gael (ac weithiau cacen a bisgedi)
£1 rhodd

CYMDEITHAS HANES DOLWYDDELAN



Mae cyfarfodydd y Gymdeithas Hanes yn dechrau ar eu tymor newydd ym mis Medi.
Caiff y cyfarfodydd eu cynnal yn Ystafell Gwyddelan (Ystafell TG) y tu ôl i Ysgol Dolwyddelan, am 7 o'r gloch.
Aelodaeth am dymor £6/yr un neu £10/y cwpwl .
Tâl mynediad o £1.50/yr aelod neu £3/ymwelydd.
Medi 7fed - William George Owen (1810-85), Peiriannydd Sifil Cynnar o Gymru, gan David Elis Williams
Hydref 5ed – O Dan ein Traed (Synhwyrydd Metel), gan Elfyn Vaughan Jones
Tachwedd 2il – Newyddiadurwr Gareth Jones, 1905-1935, gan Bob Morris

DOLWYDDELAN 2 – Cyfeirlyfr ar-lein ar Facebook

Ydych chi'n chwilio am . . .

adeiladwr - glanhawr - garddwr - therapydd harddwch - rhywun i wneud mân swyddi - gwersi gyrru - therapydd holistig - glanhawr ffenestri ayb

Neu siopau arbenigol neu ddigwyddiadau gerllaw.

Yna edrychwch ar dudalen Facebook Dolwyddelan 2 . . .

tudalen ar gyfer busnesau sy'n darparu gwasanaethau yn Nolwyddelan, nad ydy eu busnesau o reidrwydd yn Nolwyddelan ei hun, neu unrhyw un sy'n cynnal digwyddiad y tu allan i Ddolwyddelan.

Mae digwyddiadau a busnesau Dolwyddelan wrth gwrs am ddim i'w hysbysebu ar brif dudalen Facebook Dolwyddelan.

Gan ein gohebydd lleol . . .

Pam Mae Pentrefi yn Bwysicach Heddiw Nag Erioed

Roedd yna adeg pan oedd pawb yn adnabod pawb. Roedden nhw hefyd yn adnabod ci pawb, pa liw oedd eu llenni a defaid pwy yn union oedd wedi dianc yr wythnos hon. Er bod rhywfaint o hynny efallai wedi bod ychydig yn ormod o wybodaeth, efallai ein bod ni wedi colli rhywbeth eithaf pwysig ar hyd y ffordd.

Mae bywyd modern wedi ei gwneud hi'n haws nag erioed inni gyfathrebu gyda phobl ar ochr arall y byd. Yn rhyfedd, mae hefyd wedi'i gwneud hi'n haws anwybyddu'r person sy'n byw drws nesaf.

Dyna ble mae pentrefi fel Dolwyddelan wir yn sefyll allan.

Mae pentref yn fwy na chasgliad o dai gyda therfyn cyflymder (gaiff ei anwybyddu gan amlaf). Mae'n rhwydwaith o bobl sydd rywsut yn llwyddo i gadw pethau i fynd. Mae rhywun yn trefnu'r digwyddiadau. Mae rhywun yn torri'r glaswellt. Mae rhywun yn gwneud y te. Mae rhywun yn datgloi'r neuadd. Mae rhywun yn gwirfoddoli, yn aml heb i neb sylwi, gan fod y gymuned o bwys iddynt.

Mae ein siop leol yn fwy na rhywle i brynu llefrith pan fyddwch chi wedi anghofio ei brynu o'r archfarchnad. Dyma ble caiff newyddion ei rannu, pen-blwyddi eu cofio a sgyrsiau cyfeillgar yn digwydd heb i neb orfod trefnu cyfarfod yn Outlook gyntaf.

Mae'r un peth yn wir am ein heglwysi a'n capel, y dafarn, clybiau a grwpiau cymunedol. Nid dim ond adeiladau neu sefydliadau ydyn nhw; maen nhw'n llefydd lle mae cyfeillgarwch yn dechrau, lle bydd pobl yn dod at ei gilydd pan fydd pethau'n anodd a lle daw pobl newydd yn gymdogion.

Y peth doniol am berthyn ydy na allwch chi ei brynu ar-lein, ei lawrlwytho fel ap neu ei gael wedi'i ddanfon y diwrnod wedyn. Mae'n tyfu'n araf, un sgwrs, un gwirfoddolwr, un paned, un chwerthiniad ac un help llaw ar y tro.

Wrth gwrs, tydy bywyd pentref ddim yn berffaith. Rydym ni i gyd yn gwybod os byddwch chi'n parcio yn y lle anghywir, yn trimio'ch gwrych yn rhy frwdfrydig, neu os bydd eich ailgylchu yn dianc i lawr y ffordd ar ddydd Mercher gwyntog, mae'n debyg y bydd y pentref i gyd yn gwybod cyn ichi gael cyfle i roi'r tegell ymlaen! Ond efallai mai dyna'r ochr arall o bobl yn talu sylw i'w gilydd.

Mae ymchwil yn dweud wrthym yn gyson bod adnabod ein cymdogion yn gwella lles, lleihau unigrwydd ac yn ein helpu i deimlo'n fwy diogel. Mewn geiria geiriau eraill, efallai nad tanysgrifio i wasanaeth ffrydio

arall ydy'r gyfrinach at fywyd hapusach - ond dweud helô wrth bobl eraill.
Felly, y tro nesaf y byddwch chi'n pasio trwy'r pentref, galwch heibio i'r siop, cefnogwch ddigwyddiad lleol, galwch heibio i'r dafarn, ymunwch â chlwb,



Oherwydd tydy pentrefi ddim yn aros yn arbennig yn ddamweiniol. Maen nhw'n aros yn arbennig gan fod pobl gyffredin yn parhau i wneud pethau bach, caredig, bob dydd i'w gilydd.

A bydded i Ddolwyddelan barhau i wneud hynny'n union.

Wedi'r cyfan, lle arall gall prynu peint o lefrith droi'n sgwrs ugain munud a thri gwahoddiad i wirfoddoli? Hir oes iddo barhau!

Lloyd C. Mason-Boardman

CLWB DYDD LLUN

Mae Clwb Dydd Llun Dolwyddelan yn cyfarfod yn y Pafiliwn ar y trydydd dydd Llun o'r rhan fwyaf o fisoedd, heb law am fis Gorffennaf pan fyddwn ni'n mynd am ddiwrnod allan.

Mae ein cyfarfodydd yn dechrau tua 2 o'r gloch – ac yn gorffen pan fyddwn ni'n teimlo felly.

Rydym ni'n aml yn cael siaradwr gwadd atom, fel arall rydym ni'n diddanu ein hunain gyda chwis hwyl neu sgwrs. Yn y gorffennol, mae ein siaradwyr wedi ein diddanu ar bynciau mor amrywiol fel turnio, brodwaith stwmp, Affrica a'r Men's Shed.

Bydd paned a bisged, cyfeillgarwch a chyfle i sgwrsio a chwerthin bob tro yn eich aros.

Yn y gorffennol mae ein tripiau blynyddol wedi cynnwys taith mewn cwch o amgylch Ynys Seiriol, ymweld ag Amgueddfa'r 1950au yn Ninbych a thaith o amgylch Ynys Môn.

Mae croeso mawr i rai newydd bob tro.

John Weedon.

Y Newyddion Diweddaraf am Gapel Hanesyddol Bethel yn Nolwyddelan

Mae Grŵp Gweithredu Bethel (BAG) yn parhau i fod yn nwylo cyfreithiwr yr Ymddiriedolwr a'u banc i gael mynediad at weithredoedd yr eiddo. Rydym ni wedi derbyn help gwerthfawr gan gyfreithiwr lleol sydd wedi gwirfoddoli i weithredu ar ein rhan, fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn ymateb cynhyrchiol gan gyfreithiwr yr Ymddiriedolwr hyd yma.

Yn y cyfamser, hoffai BAG egluro'r dirywiad araf a chostus parhaus yng Nghapel Bethel. Enghraifft amlwg ydy'r ffenestri. Mae'r lluniau canlynol yn dangos tystiolaeth o ddifrod i'r ffenestri ers 2023 o'i gymharu â heddiw. Mae cymaint mwy o ffenestri wedi'u torri neu yn waeth fyth, ar goll yn llwyr. Tydy'r lluniau hyn ond yn dangos y dirywiad mwyaf amlwg. Yn y cefndir mae mwy o ddifrod yn digwydd o ran hindreulio mewnol, y strwythur a'r to. Mae bordiau yn angenrheidiol er mwyn gwarchod y ffenestri sy'n weddill ac amddiffyn y tu mewn. Heb yr awdurdod i gyflawni gwaith o'r fath, mae ein dwylo wedi'u clymu.

Capel Bethel 2023:



Capel Bethel today:



Er gwaethaf yr oedi, mae BAG yn parhau i ymrwymo a chanolbwyntio ar adfer yr adeilad hanesyddol hwn, er mwyn creu ased cymunedol er defnydd ac er budd cymuned Dolwyddelan.

Os ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth, ymunwch gyda ni. Rydym ni'n chwilio am wirfoddolwyr a rhoddion. Efallai yr hoffech chi ymuno â ni yn y cyfarfod grŵp nesaf?

Ysgrifennydd BAG: Helena Wroblewska, 07828 761114, Helena_w@btinternet.com

Cadeirydd BAG: Richard Griffin, 07736 059925, Richard_griffin@btinternet.com

Trysorydd BAG Treasurer: Jon Reynolds, 07722 040778, Jon1reynolds@outlook.com

Cysylltwch am fwy o wybodaeth:

Gwefan: bethel-action-group.jimdosite.com

Facebook: Grŵp Bethel



TE PRYNHAWN

Roedd y Te Prynhawn gafodd ei gynnal yn y Pafiliwn ym mis Awst yn llwyddiant mawr. Diolch i bawb ddaeth heibio. Roedd y bwyd cartref o'r radd flaenaf gyda digonedd ohono – *aeth y rhan fwyaf o bobl â bwyd adref gyda nhw!*

Hoffai'r tîm Te Prynhawn ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at y digwyddiad . . .

Co-op, Blaenau Ffestiniog – Trish 'n Chips, Blaenau Ffestiniog – Aldi, Llandudno – Co op, Llanrwst

Fe wnaeth y raffl, oedd â gwobr gyntaf o ddaliwr cacen wedi'i droi â llaw gan Mark Woodward, £41. Fe wnaeth y digwyddiad gyfanswm o £263 tuag at redeg Menter Siabod.

Diolch yn fawr i bawb am wneud y digwyddiad yn llwyddiant.
Edrychwch allan am ein digwyddiad nesaf yn y Flwyddyn Newydd.







Cyngor Cymuned Dolwyddelan

Adroddiad Blynyddol 2025/26

Am fersiwn llawnach o'r ddogfen hon, gan gynnwys yr adroddiad ariannol, ewch i dolwyddelancc.org.uk

Rydym ni'n cynrychioli Dolwyddelan, Pont Rufeinig, Pont-y-Pant, a holl ardal LL25 Dyffryn Lledr.

Eich Clerc/Swyddog Ariannol/Clerc Claddu ydy Simon Shutler.

Eich Cynghorwyr Cymuned am y flwyddyn:

Cadeirydd: Carwyn L Price
Is-gadeirydd: Mike Skerrett
Cynghorydd Sir: Elizabeth Roberts
Kaya Musgrove / Connie Brewer / Iwan W Griffiths /
Edwin R. Noble / Teleri W Jones

Fel Cyngor Cymuned rydym ni'n gwneud ein gorau glas i wneud y canlynol:

Cynrychioli a gweithredu fel llais dros ein cymunedau / Gweithio ar ran pobl leol i ofyn i Gyngor Conwy a chyrff statudol eraill gyflawni eu dyletswyddau a chyfrifoldebau mewn ffordd sy'n bodloni anghenion trigolion Dolwyddelan / Dylanwadu, galluogi a chefnogi grwpiau cymunedol / Ymgeisio am grantiau neu ffynonellau cyllid sy'n cefnogi gweledigaeth a nodau'r Cyngor Cymuned.

Cyfleusterau'r pentref y mae'r Cyngor Cymuned yn eu monitro a'u rheoli ar ran y gymuned:

Mynwent Bryn y Bedd / Senotaff / Toiledau cyhoeddus /
Biniau baw cŵn / Safle Bws

Nodwch NAD ydy'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y canlynol:

Ffyrdd / Priffyrdd / Cynllunio / Gwastraff / Casglu Sbwriel /
Tai a Budd-daliadau'r Cyngor / Addysg ac Ysgolion

Beth mae eich Cyngor Cymuned wedi bod yn ei wneud yn 2025/26:

Mynwent Bryn y Bedd – Yn ystod y flwyddyn rydym ni wedi parhau i wneud gwelliannau i'r fynwent. Cafodd arolygiad ei gynnal gan dîm bioamrywiaeth Un Llais Cymru ar y cyd â chyflwyno cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor Cymuned. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol iawn ac maent hefyd wedi rhoi rhai coed a llwyni brodorol yn rhodd i helpu gyda bioamrywiaeth. Gyda chymorth Dolwyddelan yn ei Blodau

mae'r rhain wedi'u plannu. Mae'r gwaith o ddiogelu rhai cerrig beddi yn parhau.

Cynllun Bioamrywiaeth - Mae modd gweld y cynllun ar wefan y Cyngor Cymuned. Mae'n ofynnol bod gan bob cyngor un.

Coeden Nadolig a Goleuadau – Bu i'r Cyngor Cymuned brynu'r Goeden Nadolig ac fe wnaeth Alfa ei chodi'n garedig a gosod y goleuadau. Bu i'r Pwyllgor Coeden Nadolig drefnu bod mins peis a gwin poeth ar gael i'r oedolion ac roedd Siôn Corn yno i roi anrhegion i'r plant. Roedd cawl poeth a rhôl fara hefyd ar gael yn Y Gwydyr. Hoffem ni ddiolch i bawb wnaeth gyfrannu tuag at y digwyddiad llwyddiannus.

Hwb Cynnes a Chinio'r Pensiynwyr – Mae Cyngor Conwy, drwy eu grant Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, wedi rhoi arian i sefydlu hwb cynnes yn Y Gwydyr dros y gaeaf. Daeth llawer o bobl iddo a hoffem ni ddiolch i'r Gwydyr am eu gwaith caled i sicrhau fod hyn wedi bod yn bosibl. Rhoddodd Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru ychydig o arian i ganiatáu i bensiynwyr gael prydau bwyd yn fisol yn yr ysgol, gyda'r un olaf ym mis Mai 2026. Rydym yn chwilio am gyllid i ailddechrau hyn yn yr hydref.

Toiledau Cyhoeddus – Bu i doriadau gan Gyngor Conwy i doiledau cyhoeddus, arwain ar drosglwyddo'r toiledau cyhoeddus i'r Cyngor Cymuned yn ystod y pandemig. Mae'r Cyngor Cymuned bellach yn gyfrifol am gynnal a chadw'r rhain.

Di-blastig – Rydym ni'n gynghreiriad i'r grŵp Betws Di-blastig a'r Cylch ac yn gweithio gyda'n gilydd i gynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i leihau neu gael gwared ar blastig yn yr ardal.
Diffibriliwyr - i'w cael yn ac o amgylch y pentref yn siop Spar a gyferbyn â Benar Terrace.

Astudiaeth ddichonoldeb Hydro Dolwyddelan - Dros y flwyddyn, bu inni dderbyn grantiau gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Cyngor Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ac adroddiadau comisiwn i weld a fyddai cynllun hydro cymunedol yn bosibl. Y canlyniadau oedd y byddai yn bosibl, ac mae cynnig yn cael ei gyflwyno i'r gymuned i drafod sut i symud y prosiect yn ei flaen er budd y gymuned.

Ar agor am ddiodydd o 12:00yp tan yr hwyr, bob dydd.
Gweini bwyd o Mawrth i Sul

Croeso mawr i gerddwyr a beicwyr.

GWESTY'R GWYDYR
Yng nghalon ❤ . . .
Dolwyddelan LL25 0EJ

Bwydlen Swper 17.00-20.30yh **Cinio Dydd Sul 12.00-14.30yp**
Prydau Thai gan Namthip, bob dydd Mercher 17:00-20:30yh

Namthip – "Rwy'n coginio gyda chynhwysion ffres."






Archebwch ymlaen llaw . . .
Drwy Facebook/Y Gwydyr Hotel Dolwyddelan neu rif ffôn: 07464 710 257
Gallwn arlwyo yn breifat ar gyfer partïon a digwyddiadau.

CARDIAU NADOLIG A CHALENDRAU

Yn ogystal â chalendrau, bydd cardiau Nadolig Dolwyddelan hefyd ar werth eleni!

Yr holl elw i'w rannu'n gyfartal rhwng Ti a Fi ac Ysgol Dolwyddelan.

Edrychwch allan ar dudalen Facebook Dolwyddelan a lle bynnag y bydd grwpiau yn cwrdd i'w gwerthu.

Bydd y cardiau Nadolig yn barod yn fuan, a'r calendrau ar gael ym mis Tachwedd.



Cyngor Cymuned Dolwyddelan

Ar y cyd â thafarn Y Gwydyr

Cynnau Goleuadau
Goeden Nadolig

gan Annie Atkins

Dydd Iau 3 Rhagfyr 6pm

Marchnad Nadolig o 5pm - 8pm

Carolau gyda Band Pres Penmachno

Mins pei, gwin cynnes

Siôn Corn



ILD

PEIRIANNEG ENGINEERING

Domesdig ~ Ffermio ~ Busnes

Domestic ~ Farming ~ Business

Cattlegrids – Gates – Railings
Birdfeeders – Garden metalwork
Agricultural machinery repairs

Gwefan: www.ildcattlegrids.co.uk
www.ildengineering.co.uk

Ebost: ildcattlegrids@gmail.com
ildaviesengineering@gmail.com

Ffon: 07760295557

Local Artist

Helena Z Wróblewska

Mobile: 07828 761114
Email: HZWDesigns@ProtonMail.com
Website: www.hzwdesigns.com



Personal Commissions
Hand Painted Welsh Slate
Watercolour & Ink Whimsical Paintings
Acrylic Paintings & Portraits

Carrie & Mike look forward to welcoming you to

Plas Penaeldroch

ACCOMMODATION

Pont-y-pant

Plas Penaeldroch Manor
Pont-y-Pant, Dolwyddelan
LL25 OPJ **Tel:** 01690 750 316

For information - **Website:**
www.penaeldroch.co.uk

'Celebrating 10 years, and still rebuilding'
Follow our restoration blog:
www.penaeldroch.co.uk/blog

SPORTS THERAPY JW SPORTS THERAPY

The Old Surgery,
Church Street,
Dolwyddelan
LL25 0SJ

Injury Assessment, Treatment & Rehabilitation Sports Massage.

To Book Appointments:

Phone: 07548221712
Email: JWsportstherapy9@gmail.com

GARY 'LOGS' EDWARDS

LOGS and KINDLING

Small or large loads

07718 505 093



Bodhi MOVEMENT

Bodywork & Movement Studio

The Studio, Royal Oak Stables,
Betws y Coed

Injury Assessment
Sports Massage
Movement Analysis
Yoga Classes

01690 359081
www.bodhi-movement.co.uk

Snowdonia Massage Therapies

Alison Richmond MGHT
Mobile Therapist

Neal's Yard Remedies
Independent Consultant
Massage Treatments and
Hot Stone Therapy

Call: **01690 750 222**
Mob: **07534 284 188**

Visit my Neal's Yard shop:
www.uk.nyrorganic.com/shop/alison richmond
Facebook: alisonrichmondnealsyard

10% discount off all Massage Treatments with this advert. Please quote - Menter Siabod when booking, discount cannot be used in conjunction with any other offer.

JMS PORSCHE North Wales

Porsche specialist but able to cater for all makes & models of vehicles. We can carry out all level of work. Diagnostics, servicing including gearbox servicing, brakes, suspension & clutch replacement.

We offer a 10% discount on labour to anyone in the Dolwyddelan area!

Tel: 07802 44 22 85
Email: jmsporschewales@gmail.com
Find us on Google maps or Facebook: search JMS Porsche North Wales